

# Cynghrair Henoed Cymru

## Maniffesto 2015



Mae demograffeg Cymru yn newid. Mae rhagolygon poblogaeth yn amcangyfrif, erbyn 2030, bydd nifer y bobl dros 65 oed fydd yn byw yng Nghymru wedi cynyddu 34%. Bydd y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl dros 85 oed; rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn 80%. O ganlyniad i'r newid hwn, bydd nifer y bobl a fydd yn byw â nam ar eu synhwyrau, dementia a chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd yn debygol o gynyddu.

Mae Cymru yn gweithio tuag at fod yn lle da i fynd yn hŷn; mae gennym ni strategaeth pobl hŷn, comisiynydd pobl hŷn a deddfwriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'r cyfan yn dangos, ar lefel strategol, ein bod yn hollol ymroddedig i gyflawni ein nod.

Mae Cynghrair Henoed Cymru o'r farn bod angen symud y ffocws tuag at weithredu. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo datblygiad rhwydweithiau cymdeithasol a mentrau ataliol a all danategu ac ysgogi gweithgarwch cymunedol a galluogi pobl hŷn i fyw bywydau llawn ac egnïol.

Mae Cynghrair Henoed Cymru o'r farn bod rhaid i bobl hŷn gael mynediad at y gofal iechyd a chymdeithasol sydd ei angen arnynt, i fod yn egnïol a chysylltiedig, ac yn ddiogel yn ariannol. Mae'r camau isod yn dangos sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y dyheadau hyn yn dod yn realiti.

### **1. Dylai fod gan bob unigolyn hŷn fynediad at ofal iechyd a chymdeithasol o ansawdd uchel. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:**

- Amddiffyn gwasanaethau lleol sy'n llwyddiannus o ran cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n dda a chynnal annibyniaeth.
- Parhau i gynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i weithio gyda'r sector cyhoeddus i greu a chyflwyno gwasanaethau ataliol sy'n hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigol.
- Sicrhau y rhoddir mecanweithiau ar waith sy'n galluogi pobl hŷn i fod yn rhan o ddylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
- Mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb presennol o ran mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

### **2. Dylai pob unigolyn hŷn fod yn egnïol a chysylltiedig. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:**

- Sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn ystyried yn llawn effaith toriadau i wasanaethau cyhoeddus ar fywydau pobl hŷn heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- Cefnogi deddfwriaeth sy'n tanategu'r agenda ataliol trwy feithrin cymuned leol a rhwydweithiau cymdeithasol, sy'n caniatáu i bobl hŷn reoli eu lles.

- Sicrhau bod systemau trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol ar gael yn eang, eu bod yn hygyrch, yn fforddiadwy ac yn integredig, i alluogi cyfranogiad a mynediad at wasanaethau hanfodol yn y gymuned a'r ysbyty.
- Annog pobl sy'n agosáu at oedran ymddeol i wneud cysylltiadau cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwirfoddoli ac ymgysylltiad sifil.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad i wasanaethau digidol.
- Rhaid sicrhau bod tai priodol ar gael i bawb, gan gynnwys darparu tai gwarchod a gofal ychwanegol, neu fod addasiadau priodol yn cael eu gwneud i eiddo presennol.
- Datblygu mecanweithiau sy'n galluogi pobl h n i gymryd rhan weithredol mewn ffurfio'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

### 3. Dylai pob unigolyn h n fod yn ddiogel yn ariannol. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:

- Sicrhau bod pobl h n yn ymglymedig ag unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thalu am ofal.
- Sicrhau bod prentisiaethau ar gael i bobl o bob oed.
- Sicrhau bod gan bobl h n fynediad at wasanaethau gwybodaeth ac eiriolaeth yn y gymuned. Rhaid bod gwasanaethau yn gyfan gwbl hygyrch i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau a chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Gweithio gyda phob sector i sicrhau atebolrwydd ar y cyd ar gyfer galwadau dieisiau a phost sothach.
- Cynorthwyo undebau credyd lleol

Mae **Cynghrair Henoed Cymru** yn gynghrair o 19 o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol, sy'n ymroddedig i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r fframweithiau deddfwriaethol, polisi ac adnoddau, a fydd yn gwella bywydau pobl h n. Ar y cyd, mae gan y sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Henoed Cymru wybodaeth helaeth ynghylch datblygu a chyflwyno gwasanaethau, ac maent yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl h n ledled Cymru. Mae aelodau yn gweithredu ar lefel strategol, yn ogystal â lefel weithredol, ac mae nifer ohonynt yn seiliedig ar aelodaeth.

#### Mae'r 19 sefydliad canlynol yn aelodau o Gynghrair Henoed Cymru:

Action on Hearing Loss Cymru, Age Connects Cymru, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer Cymru, Gofal Arthritis Cymru, Y Groes Goch yng Nghymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Gofalwyr Cymru, Contact the Elderly, Carers Trust Cymru, Cruse Cymru, Volunteering Matters, Deafblind Cymru, Anabledd Cymru, NIACE Cymru, Prime Cymru, Y Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol, RNIB Cymru a'r Gymdeithas Strôc.

Cyswllt: Rachel Lewis; [rachel.lewis@agealliancewales.org.uk](mailto:rachel.lewis@agealliancewales.org.uk) neu  
 Malcolm Andrews; [malcolm.andrews@agealliancewales.org.uk](mailto:malcolm.andrews@agealliancewales.org.uk)  
 Ffôn: 029 2043 1554

Gwefan: [www.agealliancewales.org.uk](http://www.agealliancewales.org.uk)

Twitter: @AgeAllianceWal